TAG UWCH – NEWYDD

1570N50-1A

I'W ROI I YMGEISWYR O 1 MAWRTH 2022 YMLAEN

# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

## U2 Uned 5 – Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch ymddygiad oedolion

## Astudiaeth Achos i'w Rhyddhau Ymlaen Llaw

### CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

**Ni allwch** fynd â'r deunydd hwn nac unrhyw ddeunydd ymchwil cysylltiedig i mewn i'r arholiad gyda chi.

### GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae'r wybodaeth dros y dudalen wedi'i darparu i'ch helpu chi i baratoi ar gyfer Adran A yn yr arholiad 'Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch ymddygiad oedolion'.

ⓗ WJEC CBAC Cyf. PJ*(Z22-1570N50-1A)

**Mae'r cyd-destun ar gyfer Adran A yr arholiad Uned 5 yn haf 2022 wedi'i amlinellu isod:**

Mae Ioan yn 45 oed ac yn weithiwr cymdeithasol. Roedd gan ei fam hanes o ddibyniaeth ar alcohol (*alcohol dependency*), ac roedd perthynas ei rieni wedi chwalu (*break up*) o ganlyniad i hyn. Fe wnaeth ei dad adael cartref pan oedd Ioan yn 7 oed. Roedd mam Ioan yn cael trafferth ymdopi ar fudd-daliadau, ac roedd Ioan a'i frawd yn aml yn llwglyd (*hungry*).

Fe wnaeth Ioan adael cartref pan oedd yn 16 oed a symud i fyw mewn hostel. Gweithiodd yn galed, ac yn y pen draw llwyddodd i gymhwyso fel gweithiwr cymdeithasol. Dydy Ioan ddim yn beio ei rieni am eu penderfyniadau; mae'n teimlo eu bod nhw'n ddioddefwyr (*victims*) o'u hamgylchiadau eu hunain. Ni wnaeth ei fam erioed ddelio â'i dibyniaeth ar alcohol, ac yn union fel mam-gu/nain Ioan, bu farw ei fam yn ifanc.

Yn ddiweddar, mae Ioan wedi helpu ei gymuned leol i sefydlu banc bwyd i gefnogi pobl sydd mewn angen.

Wrth baratoi ar gyfer Adran A yn y papur arholiad Uned 5, rydyn ni'n eich cynghori i ymchwilio i'r canlynol:

- ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion
- pwysigrwydd ac effeithiau gwydnwch (*resilience*) wrth ddelio â lleoliadau a sefyllfaoedd gofal
- damcaniaethau allweddol sy'n gysylltiedig â deall a rheoli ymddygiadau penodol
- dulliau allweddol (*key approaches*) mewn ymarfer sy'n gysylltiedig â datblygiad ac ymddygiad oedolion.